CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y Cyfarfod:	**15 Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Penodi'r Cynghorydd Carl Worrall i Grŵp Llywio Prosiect Bryngaer Pendinas**
Pwrpas yr adroddiad:	**I benodi'r Cynghorydd Carl Worrall i Grŵp Llywio Prosiect Bryngaer Pendinas**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Cynghorydd Bryan Davies**

1. Cefndir
Ar 10 Tachwedd 2022 derbyniwyd cais gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru am Aelod Lleol sy'n cynrychioli ward Aberystwyth Penparcau i ymuno â Grŵp Llywio Prosiect Bryngaer Pendinas mewn rôl ymgynghorol i sicrhau bod prosiect Pendinas yn rhedeg yn unol â'r cynllun ac awgrymu gweithgareddau eraill efallai y bydd y prosiect yn hoffi ymchwilio iddynt. Bydd y Cynghorydd yn ddolen gyswllt rhwng y grŵp llywio, y Cyngor Sir, ac yn bwysicaf oll gydag aelodau'r gymuned leol a sefydliadau lleol.

Prosiect cymunedol am 18 mis yw Prosiect Bryngaer Pendinas i ddysgu mwy am y fryngaer sy'n dominyddu'r uchelfannau uwchben Penparcau. Bydd yn ceisio ateb cwestiynau am hanes y fryngaer drwy'r oesoedd a thaflu goleuni ar y ffyrdd yr oedd ein hynafiaid yn defnyddio'r safle. Bydd canlyniadau rhaglen o arolygu cloddio a geoffisegol, yn rhoi deunydd ar gyfer gwahanol weithgareddau cymunedol, gan gynnwys gwneud ffilmiau, crochenwaith, prosiectau ysgolion, teithiau tywys a storïa, tra hefyd yn gweithio gydag arbenigwyr bywyd gwyllt lleol i glirio rhedyn ac eithin a gwella safle'r bryncyn ar gyfer y planhigion prin, yr adar, yr infertebratau a'r pryfed sydd â chartref ym Mhendinas. Bydd y prosiect yn cynnwys penwythnos Gŵyl Pendinas ym mis Awst 2024 i arddangos yr holl weithgareddau hyn ac arddangosfa ar ddiwedd y prosiect.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau?**	Does dim angen
	Os na, esboniwch pam	
	Crynodeb:	
	Hirdymor:	Sicrhau cynrychiolaeth ar ran Cyngor Sir Ceredigion a thrigolion Ceredigion ar Grŵp Llywio Bryngaer Pendinas

	Cydweithio:	Cydweithio gydag Aelodau eraill y Cyngor, a thrigolion ward Aberystwyth Penparcau er mwyn sicrhau bod yr ardal gyfan yn cael ei chynrychioli, ac i weithredu fel eiriolwr dros y prosiect
	Cynnwys:	I hysbysu'r Grŵp Llywio, y Cyngor a'r Trigolion, ac i hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau
	Atal:	Dim
	Integreiddio:	Gweithio gyda Grŵp Llywio Bryngaer Pendinas i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion o ran gweithgareddau, cofnodion hanesyddol a chadwraeth.
Argymhelliad / Argymhellion:	**I'r Cyngor nodi penodiad y Cynghorydd Carl Worrall i brosiect Bryngaer Pendinas**	
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	**I sicrhau cynrychiolaeth briodol gan Gyngor Sir Ceredigion**	
Trosolwg a Chraffu:	AMH	
Fframwaith Polisi:	AMH	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Cyfrannu at bob un o'r Blaenoriaethau Corfforaethol: • Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesa a galluogi cyflogaeth • Creu Cymunedau Gofalgar ac ach • Darparu'r Dechrau gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu • Creu Cymunedau Cynaliadwy Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim – mae'r trefnwyr wedi sicrhau cyllid i'r prosiect	
Goblygiadau cyfreithiol:	Dim	
Goblygiadau staffio:	Dim	
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim	
Risg(iau):	Dim	
Pwerau Statudol:	AMH	

Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)
Swyddog Adrodd:	Nia Jones Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	30/11/2022